# Ffeil ffeithiau Cyflwr mater

# Cyflwr mater

## Beth yw gwyddonydd bwyd?

Mae gwyddonydd bwyd yn dylunio ac yn gwneud cynnyrch bwyd newydd. Mae gwyddonwyr bwyd yn newid cyflwr bwyd, er enghraifft, pan fyddan nhw'n toddi, yn rhewi neu'n pobi. Maen nhw'n gweithio mewn llawer o wahanol weithleoedd, gan gynnwys:

- bwytai neu geginau
- prifysgolion
- sefydliadau'r llywodraeth
- cymdeithasau ymchwil arbenigol.

Y **Dysgu Allweddol** a'r **Sgiliau Gwyddoniaeth** sy'n angenrheidiol:

- Bod yn greadigol wrth ddylunio, gwneud a gwerthuso bwydydd newydd.
- Sefydlu ymholiadau ymarferol wrth ddylunio bwydydd a'u gwneud, a chyfathrebu'r canfyddiadau â chwsmeriaid.



*Dyma Heston Blumenthal. Mae'n wyddonydd bwyd sy'n defnyddio cemeg cegin i greu bwydydd arloesol. Mae hefyd yn Gymrawd y Gymdeithas Gemeg Frenhinol.*

## Beth yw nanotechnolegydd?

Mae nanotechnolegydd yn dod o hyd i ffyrdd o wneud deunyddiau ar raddfa nano. Hynny yw, ar raddfa fach iawn. Mae hyn yn bwysig ar gyfer llawer o swyddi, fel:

- technegwyr holograffeg ac opteg
- peirianwyr gweithgynhyrchu
- rheolwyr datblygu'r farchnad
- peirianwyr mecanyddol
- peirianwyr optegol.

Y **Dysgu Allweddol** a'r **Sgiliau Gwyddoniaeth** sy'n angenrheidiol:

- Chwilfrydedd am y byd o'u cwmpas a dod o hyd i ffyrdd o wneud deunyddiau ar raddfa nano.
- Mesur gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfarpar gwyddonol i archwilio deunyddiau ar raddfa nano.



*Dyma Steve Jobs. Defnyddiodd nanotechnoleg pan oedd yn gweithio ar raddfa fach yn datblygu graffigau cyfrifiadurol i Apple, Pixar.*

## Beth yw cemegydd meddyginiaethol?

Mae cemegwyr meddyginiaethol yn cymysgu cemegau mewn gwahanol gyflyrau, fel nwy, hylif a solid, i wneud meddyginiaethau sy'n trin salwch a chlefydau. Mae ganddyn nhw ddiddordeb mewn defnyddio gwyddoniaeth i helpu eraill. Mae cemegwyr meddyginiaethol yn gweithio mewn gwahanol leoedd, gan gynnwys:

- labordai
- fferyllfeydd
- ysbytai.

Y **Dysgu Allweddol** a'r **Sgiliau Gwyddoniaeth** sy'n angenrheidiol:

- Gwydn wrth sefydlu ymchwiliadau i ddod o hyd i feddyginiaethau a fydd yn trin salwch neu glefyd.
- Arsylwi'n ofalus i weld sut y gallai'r cemegau drin salwch neu glefyd.



*Dyma Marcella Bassetto. Mae hi'n gemegydd meddyginiaethol ym Mhrifysgol Abertawe yng Nghymru.*

*Fyddech chi'n hoffi defnyddio'r hyn rydych chi'n ei ddysgu am gyflwr mater pan fyddwch chi'n hŷn?*

ROYAL SOCIETY OF CHEMISTRY